

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C.B.Jones

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, **Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 1 Mawrth 2017 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn rhai cywir.

- 11 Ionawr, 2017
- Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor – 25 Ionawr, 2017

1 – 12

13 - 18

4 LLYWODRAETHU AGORED:

- 5 DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

“Beth yw diffiniad "twll ffordd/'pothole?”

- (b) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Rees-Owen i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Adnoddau Dynol (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber)**

“Pa gamau mae'r Cyngor wedi'u cymryd i sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael yn y Siambr hon?”

- (c) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol B.Stephens i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

“A wnaiff yr Aelod ddatganiad ynglâ chwmni Vision Products?”

- (ch) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Stacey i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Adnoddau Dynol (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber)**

“A hithau'n Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor, a wnaiff y Dirprwy Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnal 'Cabinet dibapur'?”

- (d) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Roberts i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

“A wnaiff yr Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd?”

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 7 Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 19 – 112 2017/2018**

Trafod adroddiad y Cabinet.

- 8 Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd y Cyngor 2017/18 – 2019/20** **113-144**
- Trafod adroddiad y Cabinet.
- 9 Penderfyniad ar Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2018** **145-154**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
- 10 Datganiad 2017/18 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau** **155-164**
- Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
- 11 Deall Ein Cymunedau: Aseidiadau Llesiant ac Anghenion y Boblogaeth Drafft Cwm Taf** **165-440**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen
- 12 Dogfen Ymgynghorol Llywodraeth Cymru Papur Gwyn “Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac adnewyddiad”** **441-508**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
- 13 Gorchymyn Rhondda Cynon Taf (Cymunedau) 2016** **509-510**
- Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
- 14 Rhybuddion o Gynigion**
- (1)** Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol P.Baccara a P.Griffiths:-
- “Mae'r Cyngor yn nodi'r pwysigrwydd strategol Tonysguboriau a Phont-y-clun o ran datblygiad economaidd Rhondda Cynon Taf, ac mae'n croesawu'r cyfleoedd cynyddol ar gyfer cyflogaeth, hamdden a manwerthu yn yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae'r Cyngor, fodd bynnag, yn cydnabod yr heriau cynyddol o ran priffyrdd a thrafnidiaeth sy'n wynebu'r ardal, nid yn unig ar gyfer y rhai sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol

sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn, ond fel porth allweddol i'r rhai sy'n cymudo rhwng Rhondda Cynon Taf ac ardaloedd eraill, yn enwedig Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr.

Rydyn ni'n croesawu'r trafodaethau parhaus rhwng y deg awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i fynd â'r maen i'w wal o ran y Fargen Ddinesig, sy'n cynnwys y cynnig pwysig o sefydlu Metro De Cymru.

Felly, mae'r Cyngor am i Swyddogion baratoi adroddiad sy'n archwilio sut y gallai ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys Tonysguboriau, elwa yn sgil y Metro arfaethedig ar gyfer De Cymru a mesurau eraill sy'n deillio o'r Fargen Ddinesig, a bod yr adroddiad hwn ar gael i Gynghorwyr i'w drafod".

- (2) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, S.Rees-Owen, M.Weaver, C.Davies, E.Webster, K.Morgan, S.Evans-Fear a I.Pearce:-

"Rydyn ni'n falch ein bod ni'n byw mewn cymdeithas amrywiol a goddefgar. Does dim lle i hiliaeth, senoffobia a throstedd casineb yn ein gwlad.

Mae'r Cyngor hwn yn llwyr gondefnio hiliaeth, senoffobia a throstedd casineb ac ni fydd yn eu goddef nac yn eu caniatáu iddyn nhw ddod yn dderbyniol.

Mae holl drigolion y Sir yn aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas ac fel Cyngor byddwn yn ymladd rhagfarn o'r fath, lle bynnag y mae'n amlygu ei hun"

- 15 **Er gwybodaeth** 511-522
Penderfyniadau Brys y Cabinet/Penderfyniadau Wedi'u Dirprwyo i Brif Swyddogion
Wedi'u Heithrio o'r Gweithdrefnau "Galw-i-mewn"

Dyma gais i'r Cyngor nodi Penderfyniad isod y Cabinet a'r ddau Benderfyniad wedi'i ddirprwyo i Brif Swyddogion a gafodd eu heithrio o Weithdrefnau "Galw-i-mewn" (copïau o'r Hysbysiadau o'r Penderfyniadau wedi'u hatodi):-

Penderfyniad y Cabinet
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, gan Brif Swyddogion
Cais i Gronfa Gymorth/Gynnal Addysg y

Weinyddiaeth Amddiffyn

Plant sy'n Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid ar eu pen
eu hunain

- 16 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Cynwys Jones'. The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke at the end.

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a
Llywodraethol**

**At: Pob aelod o'r Cyngor
22 Chwefror, 2017**

